Cylchred bywyd sewin

SILIO

Tach - Chwef: sewin benyw yn creu nyth/"redd" dan y graean mewn dŵr bâs, yn ryddhau wyau, wedi eu ffrwythloni gan y gwryw a'u gorchuddio â graean. Y pysgodyn benyw mwyaf sy'n cynhyrchu'r mwyaf o wyau. Rhaid i raean fod yn rhydd o lifwaddodion gyda digon o ddŵr sy'n gyfoethog o ocsigen.

WYAU

Mae'r wyau yn 2-5mm mewn diamedr, yn deor yn silod mewn ychydig fisoedd, dibynnol ar dymheredd y dŵr.

SILOD

Mae'r silod yn aros yn y graean, gan fyw oddi ar y melynwy yn sach yr wy. Yna maen nhw'n dod i'r amlwg fel silod man, sefydlu tiriogaethau a thyfu'n leisiaid.

GLEISIAID

Mae'r silod a'r gleisiaid yn diriogaethol ac yn byw ar ben ei hunain. Mae angen llawer o orchudd arnynt yn yr afon, fel cerrig, chwyn a phlanhigion ymlusgol sy'n tyfu ar lan yr afon, a dŵr bas nad yw'n rhy gyflym.

BRITHYLL BRYCH

Ar ôl 1-3 mlynedd yn yr afon, ym mis Ebrill/Mai, mae'r brithyll ifanc yn newid er mwyn iddynt oroesi mewn dŵr heli, maent yn troi'n arian ac yn mudo i'r môr, yn aml yn y nos mewn heigiau.

OEDOLION

Bwydo yn y môr neu aber, dychwelyd i ddŵr croyw, (fel arfer yr afon enedigol) Ebrill i Medi. Llawer yn dychwelyd i'r môr ar ôl silio ac yn dod yn ôl i silio dro ar ôl tro.